**COFNODION CYFARFOD ARFEROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 14 HYDREF 2024**
**MINUTES OF THE ORDINARY MEETING OF THE COUNCIL, HELD ON 14TH OCTOBER 2024**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths, Cadeirydd
Morwenna Pugh, is-gadeirydd
Mark Thomas
Gareth Davies
Troy maclean
Peter Jones
Geoffrey Jones
David Meirion Jones (ar Zoom
Ellen Pugh, Dirprwy Glerc
Sioned Graham-Cameron, Clerc

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb /** Apologies for Absence
**Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Rory Francis a Dafydd Dafis.**
Apologies for absence were received from Councillors Rory Francis and Dafydd Dafis.

**2. Datgan Buddiannau /** Declaration of Interest
**Datganodd Y Cynghorydd Mark Thomas fuddiant dan eitem 10 ar yr agenda.**
Councillor Mark Thomas declared an interest in item 10 on the agenda.

**3. Materion y Cadeirydd /** Chairman's Remarks
**Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau bod Y Cynghorydd Linda Ann Jones wedi ymddiswyddo fel Cynghorydd Tref. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr ati yn diolch yn fawr iddi am ei gwasanaeth ar ran y ward ac ardal Ffestiniog dros y blynyddoedd.**

**Dywedodd y Cadeirydd ei fod eisiau rhoi eitem ar agenda cyfarfod Arferol nesaf y Cyngor i drafod colofn Senedd Stiniog. Hefyd yr hoffai i'r cyfarfod fod yn gaeedig ar gyfer trafodaeth are eitem 10 ar yr agenda.**

The Chairman told the meeting that Councillor Linda Ann Jones had resigned as a Town Councillor. The members asked the Clerks to write a letter thanking her for all her hard work on behalf of the ward and the Ffestiniog area over many years.

The Chairman also said he wanted to put an item on the agenda of the next meeting to discuss the Senedd Stiniog column, and also that he would like the meeting to be closed for discussion of item 10 on the agenda.

**4. Cofnodion** / Minutes
**Derbyn a chadarnhau Cofnodion /** To receive and approve minutes

**Cofnodion Cyfarfod Anarferol y Cyngor – 7fed Awst 2024**
**Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Gareth Davies eu bod yn gywir a chytunodd pawb.**
Extraordinary Meeting of the Council 7th August 2024
Councillor Mark Thomas proposed and Councillor Gareth Davies seconded that the minutes were correct and everyone agreed.

**Cofnodion Cyfarfod Anarferol y Cyngor – 19eg Awst 2024**

**Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Troy macleasn eu bod yn gywir a chytunodd pawb.**
Extraordinary Meeting of the Council 19th August 2024
Councillor Mark Thomas proposed and Councillor Troy Maclean seconded that the minutes were correct and everyone agreed.

**Cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor – 9fed Medi 2024**
**Cynigiodd y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd y Cynghorydd Gareth Davies eu bod yn gywir a chytunodd pawb.**
Ordinary Meeting of the Council 9th September 2024
Councillor Peter Jones proposed and Councillor Gareth Davies seconded that the minutes were correct and everyone agreed.

**Cofnodion Cyfarfod Anarferol y Cyngor – 30ain Medi 2024**
**Cynigiodd Y Cynghorydd Gareth Davies ac eiliodd Y Cynghorydd Troy maclean eu bod yn gywir a chytunodd pawb.**
Extraordinary Meeting of the Council 30th September 2024
Councillor Gareth Davies proposed and Councillor Troy Maclean seconded that the minutes were correct and everyone agreed.

5. **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 / Town and Country Planning Act 1990**
Rhif Cais / Application No.: C24/0710/03/LL
Lleoliad / Location: Oswald House, 2 Heol Niwbwrch, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3DG
Bwriad / Proposal: Ystafell flaen ar gyfer dosbarth defnydd A1 a'r ystafell gefn ar gyfer defnydd unigryw o Salon Harddwch a Salon Ewinedd.
Front room for use class A1 and back room for unique use of a Beauty Salon and Nail Salon.
https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=35570&language=cy

**Trafodwyd y cais a chynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Peter Jones nad oedd y Cyngor Tref yn cyflwyno unrhyw wrthwymnebiad iddo, a chytunodd pawb.**
The application was discussed and Councillor Mark Thomas proposed and Councillor Peter Jones seconded that the Council does not oppose the application and all agreed.

6. **MUGA, Y Parc**
**Derbyniwyd dogfennau tendr y MUGA, ac enwebwyd 4 o gynghorwyr y ward i fod ar Weithgor i drin y tendr fel yr oedd yn mynd yn ei blaen, sef y Cynghorwyr Morwenna Pugh, David Meirion Jones, Peter Jones, Troy Maclean.**
The tender documents for the MUGA were received and 4 councillors from that ward were nominated to a Working Group to deal with the tender as it progressed, viz: Councillors Morwenna Pugh, David Meirion Jones, Peter Jones and Troy Maclean.

7. **Llythyr gan Aelod o'r cyhoedd ar gofeb i weithwyr y chwareli Llechi a gollodd eu bywydau**

**Trafodwyd llythyr a oedd wedi ei dderbyn yn gofyn i'r Cyngor Tref ystyried gosod plac ar lechen Pistyll Diffwys i gofio am y gweithwyr a gollodd eu bywydau yn chwareli'r ardal,**

**gan enwi pawb a fu farw a chynnwys englyn gan Gwyn Thomas arni. Ar ôl trafodaeth, a nododd faint mor anodd y byddai cael enw pawb a chaniatâd i'w cynnwys, gan na fyddai rhai teuluoedd, efallai, eisiau i enw eu hanwyliaid fod ar y garreg, cynigiodd Y Cynghorydd David Meirion Jones y bod y plac yn dweud 'Er cof am fywydau pawb a fu farw o ganlyniad i'w gwaith yn y chwareli hyn'. Gwnaeth Y Cynghorydd Geoffrey Jones welliant, gan ddweud y dylid enwi'r chwareli ac eiliodd Y Cynghorydd Peter Jones hynny. Cytunodd pawb gyda hynny. Dywedodd y Clercod y buasent yn gwneud ymholiadau o ran cael caniatâd i ddefnyddio englyn Gwyn Thomas.**

Letter from a member of the public regarding a memorial plaque to mine workers who lost their lives in the slate mines

The letter was discussed, asking the Town Council to consider putting a plaque on the slate of the Fountain in Diffwys to commemorate the workers who lost their lives in the area's slate mines, naming each one and including an englyn by Gwyn Thomas. After discussion, which noted how much time and research it would take to ensure all names were correct and to get permission from all the families, some of whom who may not want the names of their loved ones on a plaque, Councillor David Meirion Jones proposed the words should be 'Er cof am fywydau pawb a fu farw o ganlyniad i'w gwaith yn y chwareli hyn' and Councillor Morwenna Pugh seconded. Councillor Geoffrey Jones proposed an amendment, that the quarries should be named on the plaque, and Councillor Peter Jones seconded. All agreed with this. The Clerks said they would make enquiries with regard to using the englyn by Gwyn Thomas.

**8. Rhybudd o Gynnig /** Notice of Motion

**Ystyried Rhybudd o Gynnig gan Y Cynghorydd Mark Tomas:**
**Hedfan baner y Ddraig Aur yn flynyddol am fis o'r 2il Tachwedd.**
To consider a Notice of Motion from Councillor Mark Thomas:
To fly the Golden Dragon banner annually for a month from 2nd November.

**Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh, y dylaui'r Cyngor Tref archebu baner y Ddraig Aur, a chytunodd pawb.**
Councillor Mark Thomas proposed and Councillor Morwenna Pugh seconded and all agreed that the Council should order a Golden Dragon banner.

**9. Cynllun Canol y Dref /** Town Centre Scheme

**Derbyniwyd dogfen yn amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud dan raglen canol y dref er gwybodaeth.**
A document outlining the work being done under the Town Centre programme was received for information.

**10. Caffi'r Pafiliwn**

**Roedd y cyfarfod yn un caeedig. Datganodd Y Cynghorydd Mark Thomas fyuddiant yn yr eitem a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth.**
The meeting was closed for this item. Councillor Mark Thomas had declared an interest and left the Chamber for the duration of the discussion.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.36pm/** The meeting ended at 7.36pm

DRAFT